Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 35 i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Y Fflint) (Gwaharddiadau A Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 201-

MAE GWEINIDOGION CYMRU YN BWRIADU GWNEUD GORCHYMYN o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol er mwyn i'r Asiantaeth Briffyrdd osod wyneb newydd ar gefnffordd yr A55.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiad canlynol, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol rhwng 27 Awst 2013 a 27 Medi 2013 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng nos Lun a bore Gwener (20:00 - 6:00 o'r gloch) y bydd y ffyrdd ar gau yn gyfan gwbl. Ni fydd y ddwy gerbytffordd ar gau ar yr un pryd.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau amgen yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. Gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3 metr rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1. Nid oes llwybr amgen ar gael ar gyfer y cerbydau hyn ond, os oes angen, gwneir trefniadau i'r cerbydau hyn gael eu dal o fewn y darn o'r ffordd sydd ar gau a'u hebrwng drwy'r safle.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL

Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Atodlen 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain, sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) i ffin Cymru/Lloegr.

Y llwybr amgen yw gadael y gefnffordd wrth Gyffordd 35 a dilyn yr A550 tua'r de, y B5373 (Ffordd Gresffordd), y B5102 (Straight Mile/Croeshowell Hill) a'r A483 tua'r gogledd i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 38.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd wrth Gyffordd 36 ymuno â'r gerbytffordd tua'r gorllewin wrth y gyffordd hon, mynd ymlaen i Gyffordd 35 a dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod.

Dylai traffig sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd wrth Gyffordd 36a gymryd y B5125 a'r A5104 tua'r de-orllewin i ymuno â'r gerbytffordd tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 a dilyn y llwybrau dargyfeirio a ddisgrifir uchod.

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin, sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35.

Y gwrthwyneb i'r hyn a ddisgrifir uchod fydd y llwybr amgen.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd wrth Gyffordd 36 gymryd yr A5104 tua'r de-orllewin a'r A550 tua'r gogledd i ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 35.

Atodlen 2

Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1.55 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 i ffin Cymru/Lloegr.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr at bwynt 500 metr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A55 Trunk Road (Junction 35 to The Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restriction) Order 201-

THE WELSH MINISTERS PROPOSE TO MAKE AN ORDER under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary for the Highways Agency to undertake resurfacing works on the A55 trunk road.

The following prohibitions and restriction, the extent of which will be signed accordingly, are expected to operate from 27 August 2013 until 27 September 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. Full closures are only expected to take place between Monday evening and Friday morning (20:00 – 06:00 hours). Both carriageways will not be closed simultaneously.

The effect of the proposed Order will be to temporarily:

i. Prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described in that Schedule.

ii. Prohibit vehicles over 3 metres wide from proceeding in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1. No alternative route is available for these vehicles but, if necessary, arrangements will be made for such vehicles to be held within the closed length of road and escorted through the site.

iii. Impose a 40 mph speed limit on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL

Transport, Welsh Government

SCHEDULES

Schedule 1

Temporary prohibition of vehicles

i. The length of the eastbound carriageway of the trunk road, including all eastbound slip roads, that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 35 (Dobs Hill) to the Wales/England border.

The alternative route is to leave the trunk road at Junction 35 and follow the southbound A550, the B5373 (Gresford Road), B5102 (Straight Mile/Croeshowell Hill) and the northbound A483 to rejoin the A55 at Junction 38.

Eastbound traffic wishing to join the trunk road at Junction 36 should join the westbound carriageway at this junction, proceed to Junction 35 and follow the route described above.

Traffic wishing to join the trunk road at Junction 36a should take the B5125 and south-westbound A5104 to join the westbound carriageway at Junction 36 and follow the diversion routes described above.

ii. The length of the westbound carriageway of the trunk road, including all westbound slip roads, that extends from the Wales/England border to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 35.

The alternative route will be the reverse of that described above.

Westbound traffic wishing to join the trunk road at Junction 36 should take the south-westbound A5104 and northbound A550 to join the A55 at Junction 35.

Schedule 2

Temporary 40 mph speed limit

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.55 kilometres west of the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 35 to the Wales/England border.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the Wales/England border to a point 500 metres west of the nosing of the westbound entry slip road at Junction 35.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE